

Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy

Crynodeb Annhechnegol – Aseiad Amgylcheddol Strategol
Adroddiad Amgylcheddol

Mawrth 2013

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy

Crynodeb Annhechnegol – Asesiad Amgylcheddol Strategol
Adroddiad Amgylcheddol

Mawrth 2013

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




G.B. Edwards BEng (Anrh) CEng FICE
Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol, Ffyrdd a Chyfleusterau
Swyddfeydd Mochdre, Conway Road,
Mochdre, Bae Colwyn,
LL29 5AB.

Ffôn. (01492) 574000 Ffacs. (01492) 575199

Cofnod cyhoeddi a diwygio

Teitl y Ddogfen	Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd, Crynodeb Annhechnegol: AAS, Adroddiad Amgylcheddol
Fersiwn	130326.TP11A.LFRMS:NTSER.02.Cymraeg
Statws	Wedi'i gymeradwyo

Dogfen fersiwn	Nodiadau	Dyddiad
0.2	Cyflwyniad Terfynol	Mawrth 2013

	Llofnod	Enw	Dyddiad
Paratowyd gan		K Burton N Levy C Probert	15/02/13
Gwiriwyd gan		S Wasik D Rowlands	15/02/13
Cymeradwywyd gan		G Edwards	15/02/13

Cyhoeddir y ddogfen hon ar gyfer y parti a'i comisiynodd ac i ddibenion penodol sy'n gysylltiedig â'r prosiect uchod yn unig. Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu arni na'i defnyddio i unrhyw ddiben arall.

Nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am y canlyniadau yn sgil dibynnu ar y ddogfen hon gan unrhyw barti arall, nac am ei defnyddio i unrhyw ddiben arall, nac am unrhyw wall neu hepgoriad sydd ynddi oherwydd gwall neu hepgoriad mewn data a roddwyd i ni gan bartïon eraill.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol ac eiddo deallusol perchnogol. Ni ddylid ei dangos i unrhyw barti arall heb ganiatâd gennym ni a gan y parti a'i comisiynodd.

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau eraill



Cysylltwch â'r: Swyddog Adnoddau Dynol a Chydraddoldeb

E-bost:  equalities@conwy.gov.uk

Rhif ffôn:  01492 576225

Crynodeb Annhechnegol

Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CCBC) wedi paratoi fersiwn drafft o Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol (y Strategaeth), fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaethau statudol ar awdurdodau lleol i reoli risg llifogydd yn eu hardal. Er mwyn paratoi'r strategaeth hon, mae gofynion statudol i gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) er mwyn asesu effeithiau amgylcheddol posibl y Strategaeth cyn iddi gael ei mabwysiadu'n derfynol.

Mae canlyniadau'r broses AAS wedi eu cofnodi mewn Adroddiad Amgylcheddol a baratowyd ar gyfer ymgynghori ochr yn ochr â'r Drafft Ymgynghorol o'r Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2012. Dyma'r Crynodeb Annhechnegol o'r Adroddiad Amgylcheddol sy'n cynnwys sylwadau o'r broses ymgynghori, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddwy ddogfen derfynol ddiwygiedig (Mawrth 2013).

Nod y Crynodeb Annhechnegol oedd cyflwyno'r wybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r broses AAS a'i chofnodi yn yr Adroddiad Amgylcheddol mewn ffordd gryno a chlir, yn arbennig y broses AAS, effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy ac esboniad o'r gwahaniaeth y mae'r broses AAS wedi ei wneud.

Gofynion Deddfwriaethol a Phwrpas yr AAS

Roedd yn ofynnol cynnal AAS ar gyfer Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy o dan Gyfarwyddeb AAS yr Undeb Ewropeaidd. Trosglwyddwyd y Gyfarwyddeb i gyfraith y Deyrnas Unedig trwy Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni 2004, sy'n datgan bod yn rhaid gwneud asesiad o effeithiau rhai cynlluniau a rhaglenni (yn cynnwys strategaethau) ar yr amgylchedd er mwyn gallu eu hystyried cyn eu cymeradwyo a'u mabwysiadu'n ffurfiol. Gan fod strategaethau lleol yn cael eu hystyried yn gynlluniau statudol, dilynwyd proses AAS wrth asesu effeithiau'r Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy.

Hefyd, o dan Gyfarwyddeb Ewropeaidd 92/43/EEC ar Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (diwygiad), rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd os gallai cynllun arwain at effeithiau sylweddol ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd, sy'n cael eu hadnabod fel safleoedd Natura 2000. Mae safleoedd Natura 2000 yn cynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a safleoedd Ramsar, ac maent hefyd yn cynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig (AGAA) ac ymgeisydd am ACA (yACA). Bydd rhywogaethau a chynefinoedd sy'n rhan o 'Feini Prawf Dethol Ramsar' hefyd angen eu hystyried dan y Rheoliadau Cynefinoedd fel petaent yn nodweddion Natura 2000 dynodedig. O fewn ac o gwmpas sir ac arfordir Conwy mae nifer o AGA a ACA, ac felly bydd angen cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae Cam 1 yr Asesiad hwn 'Profi Effeithiau Sylweddol Tebygol' (sgrinio) wedi ei wneud ar gyfer y Strategaeth yr un pryd â'r AAS. Mae'r canlyniadau'n dangos nad yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau sylweddol yn gysylltiedig â gweithredu'r strategaeth ac felly, nid oes angen gwneud asesiad llawn. Fodd bynnag, os bydd angen gweithredu'r cynlluniau hyn, cynghorir bod pob cynllun yn cael ei asesu ar sail ei deilyngdod ei hun o dan y ddeddfwriaeth briodol.


Mae rhai o brif amcanion y broses AAS yn rhoi lefel uchel o warchodaeth i'r amgylchedd ac yn cyfrannu at integreiddio ystyriaethau amgylcheddol i'r gwaith o baratoi a mabwysiadu cynlluniau. Mae'r AAS hefyd yn dylanwadu ar y broses gwneud penderfyniadau trwy nodi ac asesu'r effeithiau sylweddol a chronnus y gallai cynllun neu raglen eu cael ar yr amgylchedd. Cynhelir hyn ar lefel strategol ac mae'n rhoi cyfle i ymgynghori ar effeithiau amgylcheddol posibl cynllun gydag ystod eang o fudd-ddeiliaid.

Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy

Aseiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu

Seiliwyd y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr AAS ar y 'Canllawiau Ymarferol i'r Gyfarwyddeb AAS' (2005) Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. Mae pum prif gam yn y Broses AAS a ddangosir yn Ffigur 1.

Ffigur 1: Camau'r Broses AAS



Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy

Yn unol â'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, rhaid i CBSC yn ei rôl newydd fel Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol ddatblygu, cynnal, cymhwyso a monitro strategaeth ar gyfer rheoli risg llifogydd lleol. O dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, caiff risg llifogydd lleol ei ddiffinio fel risg llifogydd o ganlyniad i ddŵr ffo, dŵr daear a chyrsgiau dŵr cyffredin (yn cynnwys llynnoedd a phyllau). Er eu bod y tu allan i gwmpas y Ddeddf, rhoddwyd ystyriaeth i ffynonellau llifogydd eraill yn cynnwys carthffosydd, môr, prif afonydd a chronfeydd oherwydd y rhyngweithio posibl a'r effeithiau cronus.

Yn ôl Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, rhaid i'r Strategaeth Leol amlinellu'r canlynol:

- Yr awdurdodau rheoli risg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Y swyddogaethau rheoli risg llifogydd ac arfordirol y gellir eu harfer gan yr awdurdodau hynny mewn perthynas â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Yr amcanion (cyfeirir atynt fel 'canlyniadau' i CBSC) ar gyfer rheoli risg llifogydd lleol;
- Y mesurau arfaethedig i gyflawni'r amcanion hynny;
- Sut a phryd y disgwylir gweithredu'r mesurau hynny;
- Costau a manteision y mesurau hynny, a sut y telir amdanynt;
- Aseiad o risg llifogydd lleol i bwrpas y Strategaeth;
- Sut a phryd y bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu; a
- Sut mae'r Strategaeth yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion amgylcheddol ehangach.

Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy

Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu

Mae geirfa o dermau technegol yn gysylltiedig â rheoli risg llifogydd yn fersiwn terfynol y Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd (Mawrth 2013).

Cam A – Crynodeb Cwmpasu Sylfaenol

Yn ôl Rheoliadau AAS rhaid cwblhau ymarfer Cwmpasu cyn dechrau'r AAS ac ysgrifennu'r Adroddiad Amgylcheddol. Cwblhawyd yr Adroddiad Cwmpasu yn Awst 2012 ac roedd yn cynnwys:

- Adolygiad o gynlluniau, rhaglenni a deddfwriaeth diogelu amgylcheddol perthnasol, gan ganolbwyntio ar y rhai a allai ddylanwadu neu gael eu dylanwadu gan y Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd;
- Crynodebau yn seiliedig ar bynciau ar sail yr wybodaeth amgylcheddol sylfaenol bresennol, yn nhermau aer; dŵr; ffactorau'n ymwneud â'r hinsawdd; pridd, bioamrywiaeth, ffawna a fflora, tirwedd, treftadaeth ddiwylliannol, poblogaeth ac iechyd pobl; ac asedau perthnasol (a sut y rhagdybir y bydd y waelodlin yn datblygu heb y Strategaeth);
- Nodi prif faterion, heriau a chyfleoedd ar gyfer y Strategaeth; a'r
- Fframwaith yr AAS arfaethedig yn cynnwys amcanion yr AAS, meini prawf asesu a dangosyddion monitro posibl.

Mae'r wybodaeth sylfaenol a gasglwyd yn ystod cam cwmpasu'r broses yn ffurfio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer rhagfynegi ac asesu'r effeithiau amgylcheddol (naill ai cadarnhaol neu negyddol) yn deillio o'r Strategaeth. Mae'r Gyfarwydddeb AAS hefyd yn nodi bod yn rhaid nodi datblygiad y waelodlin heb weithredu'r Strategaeth. A thybion na weithredir y Strategaeth arfaethedig ac ar sail yr wybodaeth sydd ar gael hyd yma, credir mai dyma'r tueddiadau a'r datganiadau a nodwyd yn yr ymarfer cwmpasu:

- Ansawdd aer - gallai datblygiadau newydd, adfywio a thwristiaeth arwain at fwy o siwrneiau ceir yn y Sir a gallai gynyddu traffig ar yr A55 gan effeithio ar ansawdd yr aer yn lleol. Dylai gwelliannau cludiant cyhoeddus, targedau ansawdd aer cenedlaethol a safonau allyriadau Ewropeaidd ar gyfer cerbydau newydd gyfrannu at leihau'r effaith a gaiff cerbydau modur ar ansawdd yr aer yn y dyfodol;
- Dŵr – mae ansawdd dŵr yn debygol o barhau i gael ei gynnal a'i wella trwy ddeddfwriaeth, fel y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Gallai datblygiadau newydd gynyddu dŵr ffo a gwaethygu problemau llifogydd. Gallai llifogydd yn y dyfodol lygru cyrsiau dŵr a dŵr daear;
- Ffactorau'n ymwneud â'r hinsawdd - mae effaith newid hinsawdd yn y dyfodol yn debygol o arwain at lefel y môr yn codi, tymereddau uwch ac amodau tywydd mwy difrifol (mwy dwys ac yn para'n hirach) yn cynnwys llifogydd sydyn;
- Bioamrywiaeth - mae cynefinoedd a rhywogaethau'n debygol o barhau i gael eu diogelu trwy ddeddfwriaeth Ewropeaidd a DU. Fodd bynnag, gallai datblygiadau yn y dyfodol roi pwysau ar yr ardaloedd ecolegol hyn. Gallai effaith newid hinsawdd yn y dyfodol a llifogydd effeithio ar ecosystemau, cynefinoedd a rhywogaethau;
- Poblogaeth - rhagfynegir y bydd poblogaeth y Sir yn cynyddu. Gallai hyn roi pwysau o safbwynt datblygu'r tir ac mae'n bosibl y bydd raid lleoli datblygiadau mewn ardaloedd lle mae risg llifogydd. Gallai llifogydd difrifol yn y dyfodol effeithio ar y boblogaeth yn nhermau difrod i dai, isadeiledd a gwasanaethau lleol y mae'r gymuned yn dibynnu arnynt. Gallai achosion difrifol o lifogydd hefyd effeithio ar yr economi trwy ddifrod i fusnesau a thwristiaeth;
- Iechyd pobl - gallai achosion o lifogydd effeithio ar iechyd pobl trwy anafiadau neu farwolaeth, straen emosiynol llifogydd, a llygredd gan arwain at broblemau iechyd;
- Asedau perthnasol – mae adfywio a buddsoddi a galw yn y dyfodol yn debygol o gynyddu nifer yr asedau perthnasol, a'u hinsawdd, fel tai, isadeiledd cludiant, cyfleusterau gwastraff, gorsafedd pŵer a chyfleusterau cymunedol;
- Tirwedd – gallai achosion o lifogydd a datblygiadau yn y dyfodol effeithio ar ansawdd a chymeriad tirweddau;

Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu

- Pridd - gallai achosion o lifogydd achosi difrod i dir amaethyddol a gallai hynny yn ei dro effeithio ar economi cefn gwlad. Gallai llifogydd yn y dyfodol mewn ardaloedd halogedig hefyd gynyddu llygredd; a
- Threftadaeth Ddiwylliannol - mae asedau hanesyddol yn debygol o barhau i gael eu diogelu trwy ddeddfwriaeth Ewropeaidd a DU. Gallai llifogydd yn y dyfodol ddifrodi asedau hanesyddol a'u cymeriad.

Datblygwyd amcanion yr AAS ar sail pynciau'r Gyfarwyddeb AAS, gwybodaeth waelodlin, a phrif ystyriaethau ar gyfer y Sir:

1. Diogelu a gwella lle y bo'n bosibl statws ecolegol a chemegol cyrsiau dŵr a chyrrff dŵr yn unol ag amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;
2. Lleihau a rheoli risg llifogydd o gyrsiau dŵr, dŵr ffo, dŵr daear a chyrrff dŵr artiffisial o fewn Sir Conwy;
3. Gwella iechyd a lles pobl trwy leihau effeithiau llifogydd;
4. Diogelu a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth trwy Sir Conwy;
5. Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirwedd trwy'r sir;
6. Diogelu asedau hanesyddol a'u tirweddau;
7. Addysgu, rheoli, cynllunio ac addasu ar gyfer effeithiau newid hinsawdd;
8. Lleihau i'r eithaf brif effeithiau a chanlyniadau risg llifogydd ar brif asedau, isadeiledd, eiddo a busnesau;
a
9. Diogelu pridd a thir amaethyddol o'r ansawdd gorau a lleihau i'r eithaf y posibilrwydd o lygredd.

Cam B – Ystyried Syniadau Amgen ac Asesu Effeithiau

Profi a yw canlyniadau'r Strategaeth yn gyson ag amcanion ASS yw'r dasg gyntaf yng Ngham B o'r broses ASS. Mae'n helpu i nodi unrhyw synergeddau neu anghysondebau posibl rhwng y Strategaeth ac amcanion yr ASS ac mae'n cyfrannu at ddatblygu'r canlyniadau arfaethedig. Cwblhawyd matrices cydweddoldeb (gweler Tabl 1) rhwng amcanion yr AAS a'r Strategaeth.

Roedd y matrices cydweddoldeb yn dangos bod canlyniadau'r Strategaeth ac amcanion yr ASS i gyd yn gyson. Nod canlyniadau'r Strategaeth yw lleihau risgiau, effeithiau a chanlyniadau llifogydd i bobl, busnesau, eiddo, isadeiledd a'r amgylchedd. Mae'r canlyniadau hyn yn cefnogi amcanion yr AAS ar ddiogelu cymunedau, bioamrywiaeth, tirwedd, treftadaeth, dŵr, priddoedd ac ati. Bydd mabwysiadu dull cynaliadwy o ymdrin â rheoli risg llifogydd yn helpu i sicrhau nad yw cynlluniau rheoli llifogydd yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd.

Defnyddiwyd yr allwedd ganlynol i ddangos bod canlyniadau'r Strategaeth yn gyson ag amcanion yr AAS:

+	Amcanion / Canlyniadau yn gyson
-	Amcanion / Canlyniadau o bosibl yn gyson
0	Amcanion / Canlyniadau heb gysylltiad
/	Ansicrwydd ynglŷn â'r berthynas

Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy
 Aseiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Amgylcheddol

Tabl 1: Matrics Cydweddoldeb Canlyniadau'r Strategaeth / Amcanion AAS

		Amcanion yr Aseiad Amgylcheddol Strategol								
		1. Diogelu a gwella lle y bo'n bosibl statws ecolegol a chemegol cyrsiau dŵr a chyrrff dŵr yn unol ag amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr	2. Lleihau a rheoli risg llifogydd o gyrstiau dŵr, dŵr ffo, dŵr daear a chyrrff dŵr artiffisial o fewn Sir Conwy	3. Gwella iechyd a lles pobl trwy leihau effeithiau llifogydd	4. Diogelu a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth trwy Sir Conwy.	5. Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirwedd trwy'r sir	6. Diogelu asedau hanesyddol a'u tirweddau	7. Addysgu, rheoli, cynllunio ac addasu ar gyfer effeithiau newid hinsawdd.	8. Lleihau i'r eithaf brif effeithiau a chanlyniadau risg llifogydd ar brif asedau, isadeiledd, eiddo a busnesau	9. Diogelu'r ansawdd gorau o ran pridd a thir amaethyddol a lleihau i'r eithaf y posibilrwydd o lygredd
Canlyniadau Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd CBS Conwy	Canlyniad 1	+	+	+	+	+	+	+	+	+
	Canlyniad 2	+	+	+	+	+	+	+	+	+
	Canlyniad 3	+	+	+	+	+	+	+	+	+
	Canlyniad 4	+	+	+	+	+	+	+	+	+
	Canlyniad 5	+	+	+	+	+	+	+	+	+
	Canlyniad 6	+	+	+	+	+	+	+	+	+
	Canlyniad 7	+	+	+	+	+	+	+	+	+
	Canlyniad 8	+	+	+	+	+	+	+	+	+
	Canlyniad 9	+	+	+	+	+	+	+	+	+
	Canlyniad 10	+	+	+	+	+	+	+	+	+

Canlyniadau Strategaeth CBS Conwy

- Canlyniad 1.** Gwella dealltwriaeth o lifogydd lleol (dŵr wyneb, dŵr daear a chyrstiau dŵr cyffredin) a risgiau arfordirol;
- Canlyniad 2.** Cynyddu ymwybyddiaeth unigolion a chymunedau a'u paratodau ar gyfer digwyddiadau erydu arfordirol a llifogydd ac effeithiau newid hinsawdd ar risg llifogydd;
- Canlyniad 3.** Cydweithio (o ran y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, budd-ddeiliaid a'r cyhoedd) i leihau risgiau llifogydd ac arfordirol, rhannu data ac adnoddau er mwyn sicrhau'r budd gorau posibl;
- Canlyniad 4.** Lleihau effaith a chanlyniadau llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;
- Canlyniad 5.** Sicrhau bod penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud ar sail gwybodaeth briodol am faterion llifogydd a'r effaith y gallai cynllunio yn y dyfodol ei chael ar reoli risg llifogydd a datblygiadau tymor hir;
- Canlyniad 6.** Gwella a/neu gynnal gapasiti systemau draenio presennol trwy waith cynnal wedi ei dargedu;
- Canlyniad 7.** Sicrhau dull cynaliadwy o reoli risg llifogydd sy'n cydbwysu manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol;
- Canlyniad 8.** Cynyddu dulliau sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol;
- Canlyniad 9.** Sicrhau bod sgiliau angenrheidiol yn cael eu datblygu i weithredu mesurau rheoli risg llifogydd effeithiol ac arloesol; a
- Canlyniad 10.** Nodi prosiectau a rhaglenni sy'n fforddiadwy, sy'n gwneud y mwyaf o gyllid cyfalaf o ffynonellau mewnol ac allanol

Asesu Mesurau Strategol

Datblygwyd amrywiaeth o fesurau o dan bob un o ganlyniadau'r Strategaeth ac maent i'w gweld yn yr Adroddiad Amgylcheddol (Mawrth 2013) a fersiwn derfynol y Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy (Mawrth 2013).

Nod y mesurau oedd helpu CBSC i sicrhau canlyniadau'r Strategaeth trwy ddarparu dulliau a thasgau manylach i ymgymryd â nhw. Aseswyd pob un o'r mesurau yn erbyn Fframwaith yr AAS trwy bennu lefel perfformiad amgylcheddol y mesur yn erbyn pob un o amcanion Fframwaith yr AAS.

Yn unol â'y Gyfarwyddeb AAS, ystyriwyd opsiwn 'Gwneud Dim' a 'Busnes fel Arfer' hefyd o fewn yr holl fesurau priodol. Disgrifir diffiniadau o'r opsiynau hyn fel a ganlyn:

- Gwneud Dim - bod y tîm rheoli risg llifogydd yn CBSC yn cael ei ddiddymu ac nad oes unrhyw waith pellach ar reoli risg llifogydd yn cael ei wneud; a
- Busnes fel Arfer - bod y tîm rheoli risg llifogydd yn CBSC yn cael ei gadw a bod gweithgareddau rheoli risg llifogydd presennol yn parhau ond nad yw'r Strategaeth yn cael ei gweithredu.

Mae canlyniadau manwl yr asesiad i'w gweld yn Adroddiad Amgylcheddol yr AAS (Mawrth 2013).

Asesiad Cronnus

Yn ôl Cyfarwyddeb AAS roedd yn rhaid gwneud asesiad cronnus o effeithiau Strategaeth Conwy (i'w gweld yn Nhabl 2). Aseswyd effaith gronnus y cyfuniad o fesurau o dan holl ganlyniadau'r Strategaeth yn erbyn amcanion yr AAS. Roedd effeithiau cronnus y Strategaeth yn gadarnhaol ar y cyfan gan fod pob un o'r mesurau'n cyfrannu at sicrhau'r canlyniad yn ogystal â manteision yn nhermau lleihau risg llifogydd.

Dyma'r meini prawf asesu a'r allwedd a ddefnyddiwyd:

+++	Effaith gadarnhaol sylweddol
++	Effaith gadarnhaol gymedrol
	Mân effaith gadarnhaol
0	Niwtral neu ddim effaith
-	Mân effaith negyddol
--	Effaith negyddol gymedrol
---	Effaith negyddol sylweddol
?	Ansicrwydd ynghylch effaith neu effeithiau lluosog sy'n gadarnhaol a negyddol
D	Effaith yn dibynnu ar weithredu

Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy
 Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Amgylcheddol

Tabl 2: Asesiad Cronnus

Canlyniadau a Mesurau'r Strategaeth	Amcanion yr AAS										Sylw			
	1	2	3	4	5	6	7	8	9					
Canlyniad 1 y Strategaeth – Mesurau 1.1-1.8	++	+++	+++	++	+	++	+++	+++	++		Bydd yr holl fesurau'n cyfrannu at gynyddu dealltwriaeth o risgiau llifogydd lleol ac arfordirol. Bydd manteision cronrus i hyn, gan wneud rheoli llifogydd yn fwy effeithiol ac effeithlon a thrwy hynny bydd manteision yn sgil lleihau llifogydd i fioamrywiaeth, ansawdd dŵr, iechyd pobl, eiddo, isadeiledd, busnesau, asedau hanesyddol, priddoedd a thirwedd. Bydd dealltwriaeth hefyd yn helpu i gynllunio ac addasu ar gyfer newid hinsawdd ac addasu.			
Canlyniad 2 y Strategaeth – Mesurau 2.1-2.7	+	+++	+++	+	+	++	+	+++	++		Bydd yr holl fesurau'n cyfrannu at gynyddu ymwybyddiaeth unigolion a chymunedau a pharatoadau ar gyfer digwyddiadau erydu arfordirol a llifogydd a bydd effeithiau cadarnhaol cronrus, yn arbennig yn nhermau lleihau canlyniadau ac effeithiau ar iechyd pobl, eiddo, isadeiledd a busnesau.			
Canlyniad 3 y Strategaeth – Mesurau 3.1-3.5	+	++	++	++	+	+	+	++	+		Bydd y mesurau'n fodd i sicrhau cydweithio gyda Deddf Rheoli Llifogydd â Dŵr, budd-ddeiliaid a'r cyhoedd. Bydd effaith gronrus y mesurau'n gwella cydweithio.			
Canlyniad 4 y Strategaeth – Mesurau 4.1-4.5	++	++	+++	-	++	-	+	-	++	++	+++	-	+	Bydd effeithiau cronrus y mesurau'n gadarnhaol ar y cyfan trwy leihau llifogydd. Fodd bynnag, bydd effeithiau negyddol cronrus sy'n debygol o fod o natur dros dro yn ystod cyfnodau adeiladu cynlluniau.
Canlyniad 5 y Strategaeth – Mesurau 5.1-5.5	++	++	++	++	++	++	++	++	++	++	++	++	++	Bydd yr holl fesurau'n cyfrannu at sicrhau bod penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud ar sail gwybodaeth briodol am faterion risg llifogydd.
Canlyniad 6 y Strategaeth – Mesurau 6.1-6.3	++	+++	+++	+	+	+	++	+++	+		Bydd effeithiau cronrus y mesurau'n arwain at effeithiau cadarnhaol yn arbennig yn nhermau gwella ansawdd dŵr a lleihau llifogydd o ddraeniau.			
Canlyniad 7 y Strategaeth – Mesurau 7.1-7.3	+++	++	++	++	+	+	+	++	+++		Bydd y mesurau'n cael effeithiau cronrus cadarnhaol ar amcanion yr AAS.			
Canlyniad 8 y Strategaeth – Mesurau 8.1-8.4	+	++	++	++	+	+	+	++	+		Bydd y mesurau'n cyfrannu at sicrhau'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer gweithredu tasgau rheoli risg llifogydd yn effeithiol.			
Canlyniad 9 y Strategaeth – Mesurau 9.1-9.4	++	+++	+++	++	++	++	+++	+++	++		Bydd effeithiau cronrus y mesurau'n arwain at effeithiau cadarnhaol.			
Canlyniad 10 y Strategaeth – Mesurau 10.1-10.3	+++	+++	+++	--	+++	--	+++	--	+++	++	+++	--	+++	Bydd y mesurau'n cael effeithiau cronrus cadarnhaol sylweddol yn nhermau lleihau llifogydd ac o ganlyniad bydd manteision i iechyd pobl, asedau, eiddo a busnesau, fodd bynnag, bydd effeithiau negyddol cronrus sy'n debygol o fod o natur dros dro yn ystod y cyfnod o adeiladu cynlluniau.

Mesurau Lliniaru a Gwella

Roedd yr aseiad o'r mesurau'n cynnig Argymhellion yr AAS ar gyfer cynnwys mesurau yn y Strategaeth, a'u mireinio i gael yr effaith fwyaf cadarnhaol bosibl megis mesurau uno ac awgrymu newid geiriad neu ychwanegu at eiriad mesurau.

Tabl 3: Mesurau Lliniaru a Gwella

Canlyniad y Strategaeth a Mesur	Mater / Effaith Bosibl	Mesurau Lliniaru a Gwella a Awgrymir
Canlyniad 4, Mesur 4.2	Mae rhaglen buddsoddi cost cyfalaf yn debygol o arwain at adeiladu cynlluniau lliniaru llifogydd. Yn ogystal ag effeithiau cadarnhaol yn nhermau lleihau risg llifogydd mae'n bosibl y bydd effeithiau negyddol dros dro a pharhaol ar fioamrywiaeth, tirwedd, priddoedd ac asedau hanesyddol yn gysylltiedig ag adeiladu a cholli tir neu ased ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd.	Mae effeithiau negyddol yn debygol o gael eu lleihau trwy'r broses gynllunio a deddfwriaeth ac felly nid oes angen mesurau lliniaru penodol yn y Strategaeth. Gallai cynlluniau lliniaru yn y dyfodol gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Cynnal astudiaethau dichonoldeb ar gyfer y cynllun gan ystyried y lleoliad mwyaf priodol a'r math o gynllun sy'n cydbwysu ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol; Cynnal aseiad amgylcheddol priodol o'r cynllun (e.e. AEA neu debyg) i edrych ar fanylion yr effeithiau amgylcheddol a lliniaru penodol; Cynnal gweithdy WRAP (Rhaglen Gweithredu Adnoddau Gwastraff) yn ystod y broses o gynllunio'r cynllun i helpu i gael gwared ar wastraff; Datblygu Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) i leihau'r effeithiau ar yr amgylchedd yn ystod gwaith adeiladu; a Datblygu Cynllun Rheoli Gwastraff Safle (SWMP) i annog aildefnyddio ac ailgylchu deunyddiau.
Canlyniad 10, Mesur 10.1, 10.2, 10.3	Mae nodi ffynonellau cyllido newydd yn debygol o arwain at weithredu mwy o raglenni a chynlluniau. Yn ogystal ag effeithiau cadarnhaol yn nhermau lleihau llifogydd mae'n bosibl y bydd effeithiau negyddol dros dro a pharhaol ar fioamrywiaeth, tirwedd, priddoedd ac asedau hanesyddol yn gysylltiedig ag adeiladu a cholli tir neu ased ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd.	

Cynigion Monitro

Mae'n bwysig bod y gwaith o weithredu'r Strategaeth yn cael ei fonitro i sicrhau bod unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol nas rhagwelwyd yn cael eu nodi, bod effeithiau a ragwelwyd yn cael eu mesur a bod camau cywiro'n cael eu cymryd os oes angen.

Yn sgil natur lefel uchel y Strategaeth a chanlyniadau cadarnhaol yr aseiad, mae gofynion a dichonoldeb monitro wedi eu cyfyngu. Fodd bynnag, er na nodwyd unrhyw effeithiau negyddol, credir oherwydd bod monitro yn rhan annatod o'r broses AAS (ac yn ofyniad statudol), y bydd y Strategaeth yn cael ei monitro er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei gweithredu fel y rhagwelwyd yn yr AAS hwn. Felly awgrymir nifer o ddangosyddion isod ar gyfer monitro effeithiau'r Strategaeth (gweler Tabl 4). Bydd y monitro hwn yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau gweithredu blynyddol fydd yn ategu'r Strategaeth. Dylid nodi na fydd yn bosibl monitro'r holl ddangosyddion yn syth oherwydd adnoddau a bylchau sylfaenol. Fodd bynnag, dylid ystyried monitro'r dangosyddion hyn yn y dyfodol.

Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy

Aseiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Amgylcheddol

Tabl 4: Cynigion Monitro

Cynnig Monitro - Dangosyddion
• Nifer yr eiddo preswyl ac eraill mewn risg llifogydd;
• Nifer y datblygiadau newydd a ganiateir mewn ardaloedd lle mae risg llifogydd;
• Nifer y cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd a weithredir;
• Nifer y SDCau a weithredir;
• Nifer a difrifoldeb yr achosion o lifogydd yn Sir Conwy a'u ffynhonnell;
• Nifer yr achosion o lifogydd sy'n arwain at darfu ar gludiant;
• Nifer y gweithgareddau a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth a wneir;
• Nifer yr ymchwiliadau cyhoeddus yn gysylltiedig â llifogydd;
• Arwynebedd cynefin (math, ac arwynebedd) a grëir neu a gollir o ganlyniad i SDCau a gwaith amddiffyn rhag llifogydd;
• Poblogaethau rhywogaethau blaenoriaethol a gollir neu a gynyddir trwy waith amddiffyn rhag llifogydd;
• Arwynebedd tirwedd bwysig mewn risg llifogydd;
• Nifer o effeithiau andwyol sylweddol ar y dirwedd oherwydd datblygiadau'n gysylltiedig â llifogydd mewn tirwedd sensitif;
• Effaith weledol gadarnhaol (neu negyddol) cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd a leolir mewn ardaloedd o ansawdd neu arwyddocâd dirweddol;
• Nifer yr asedau hanesyddol mewn risg llifogydd;
• Nifer yr adeiladau rhestredig sydd ar y gofrestr 'mewn risg' sydd mewn risg llifogydd
• Nifer y gweithgareddau addysgol (arddangosfeydd, gweithdai, taflenni, holiaduron, hysbysebu) a wneir;
• Nifer a difrifoldeb yr achosion sy'n arwain at darfu neu ddifrod i ddarpariaeth;
• Nifer yr eiddo preswyl ac eraill mewn risg llifogydd trwy Sir Conwy;
• Nifer yr asedau pŵer, gwastraff a thelathrebu mewn risg llifogydd;
• Nifer y gwasanaethau critigol mewn risg llifogydd;
• Isadeiledd cludiant mewn risg llifogydd;
• Arwynebedd tir amaethyddol mewn risg llifogydd;
• Arwynebedd tir amaethyddol a gollir oherwydd bod angen am amddiffyn rhag llifogydd; a
• Nifer yr achosion o lygredd o ganlyniad i lifogydd.

Casgliadau

Mae'r AAS a wnaed ar gyfer Strategaeth Conwy wedi helpu i sicrhau bod yr opsiynau/mesurau gydag effeithiau negyddol sylweddol y gellid eu lliniaru wedi eu gwrthod yn ystod y cam dewis opsiynau a heb eu cynnwys yn y Strategaeth. Hefyd bu'r broses yn gymorth i fireinio opsiynau/mesurau er mwyn gwneud y mwyaf o effeithiau manteisiol. Oherwydd natur y Strategaeth mae gan y rhan fwyaf o opsiynau/fesurau a'r strategaeth ei hun effeithiau cadarnhaol. Y prif effeithiau cadarnhaol a nodwyd oedd lleihau risg llifogydd o ganlyniad i ddiogelu pobl, eiddo, isadeiledd, busnesau, ansawdd dŵr, asedau hanesyddol, a bioamrywiaeth

Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd Conwy Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Amgylcheddol

rhag difrod gan lifogydd. Yr unig effeithiau negyddol a nodwyd yn ystod y cam asesu oedd y mesurau oedd yn arwain at waith/cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd strwythurol yn y dyfodol. Mae'r effeithiau hyn yn debygol o fod o natur dros dro y gellir eu lliniaru trwy arferion gorau ar y safle, deddfwriaeth a'r broses gynllunio.

Camau Nesaf y Broses AAS

Mae'r Adroddiad Amgylcheddol yn dangos canlyniadau Camau A i D o'r broses AAS. Y cam nesaf o'r broses yw Cam E sy'n cynnwys Monitro a Gweithredu'r cynllun. Bydd Cam E - 'Monitro' yn cael ei gynnal yn flynyddol gan CBSC ar ôl i'r Strategaeth gael ei mabwysiadu.